Y PROSIECT CYFRAITH GYHOEDDUS

Cynhadledd Cymru 2012

Dydd Mercher 4ydd Ebrill 2012
Prifysgol Caerdydd, Adeilad Morgannwg
Rhodfa'r Brenin Edward VII
Caerdydd, CF10 3WT

6 awr CPD / BSB / ILEX

Cynhadledd ar gyfer
Cyfreithwyr, cynghorwyr, gwasanaethau cyfreithiol mewn cyrff cyhoeddus, adfocadau ac ymgyrchwyr

"Ni wn am unrhyw un o ddyletswyddau'r llys sy'n bwysicach glynu wrtho, nac ac am unrhyw un o bwerau'r llys sy'n bwysicach ei orfodi, na'i bŵer i gadw cyrff cyhoeddus o fewn eu hawliau."

Lindley MR yn Roberts v Cyngor Dosbarth Gwyrfai [1899] 2CH 608, 614



I gael ffurflenni archebu, rhagor o wybodaeth a rhaglenni, neu i archebu lle ar-lein, ewch i: www.publiclawproject.org.uk

The Public Law Project
Morgan Cole
Landmark Chambers
Cymdeithas y Cyfreithwyr / The Law Society
UWE Bristol – University of the West of England
Cardiff University / Prifysgol Caerdydd

Cyfraith Gyhoeddus Cymru

SESIWN Y BORE

Cadeirydd: Carolyn Goodall
Cyfreithiwr, Sinclairs Law

10.00 **Y cwestiwn am awdurdodaeth Cymru**
John Wotton, Llywydd, Cymdeithas y Cyfreithwyr

10.30 **Gweithdai'r Bore**

11.40 **Toriad am Goffi**

12.00 **Adolygiad barnwrol yng Nghymru: Deg achos pwysicaf y flwyddyn**
Adolygiad a dadansoddiad o'r achosion pwysig a gyflwynwyd yng Nghymru neu sy'n effeithio ar Gymru.
Gwion Lewis, Bargyfreithiwr, Landmark Chambers

12.30 **Ymgyfreitha ym maes y Toriadau: Achosion diweddar a themâu presennol**
Mae Louise wedi torri ei chwys ei hun wrth ddefnyddio dyletswyddau cydraddoldeb i herio penderfyniadau cyllido, ac mae'n parhau i gyflwyno achosion arloesol ar ran grwpiau cymunedol a Chyrff Anllywodraethol yn y Llys Gweinyddol. Yn ddiweddar, roedd hi'n westai ar raglen 'Unreliable Evidence' Clive Anderson ar Radio 4 yn trafod y twf yn amlygrwydd y maes hwn.

Louise Whitfield, Cyfreithiwr, Pierce Glynn.

13.10 **Cinio**

SESIYNAU GRŴP Y BORE

(1 awr 10 munud): Dewiswch un

1 Cyflwyniad i gyfraith gyhoeddus ac adolygiadau barnwrol

Mae'r seminar hwn yn edrych ar egwyddorion sylfaenol cyfraith gyhoeddus, a'r prosesau a'r gweithdrefnau sydd ynghlwm wrth herio prosesau gwneud penderfyniadau cyrff cyhoeddus.

Carolyn Goodall, Cyfreithiwr, Sinclairs Law
Joanne Clement, Bargyfreithiwr, 11 KBW

2 Cynllunio ac adolygiadau barnwrol

Adolygiad o achosion diweddar yng Nghymru ac ystyried eu sgil-effeithiau ar gynigion ar gyfer datblygu yn y dyfodol ac ar gynllunio datblygiadau.

Rhodri Price Lewis QC, Landmark Chambers

3 Cyflwyniad i adolygiadau barnwrol a mewnfudo

Bydd y seminar hwn yn archwilio'r berthynas rhwng cyfraith mewnfudo ac adolygiad barnwrol a sut orau i herio penderfyniadau Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref.

Rebecca Harrington, Christian Howells & Rebecca Stickler, Bargyfreithwyr, 30 Park Place

4 Addasu'r falf diogelwch – adolygiadau barnwrol o'r Uwch Dribiwnlys

Bydd y gweithdy hwn yn edrych ar ganlyniad Cart, gan ystyried y goblygiadau ymarferol a chyfansoddiadol.

Christopher Jacobs, Bargyfreithiwr, Landmark Chambers

Mae'r Prosiect Cyfraith Gyhoeddus yn elusen genedlaethol annibynnol, a'i nod yw gwella mynediad at gyfiawnder.

Y tri phrif amcan yw:

- Cynyddu atebolrwydd y sawl sy'n gwneud penderfyniadau cyhoeddus;
- Gwella safon prosesau gwneud penderfyniadau cyrff cyhoeddus; a
- Gwella mynediad at gyfiawnder.

Er mwyn cyflawni'r nod hwn, mae'r Prosiect Cyfraith Gyhoeddus yn ymgymryd â gwaith ymchwil, cynlluniau polisi, gwaith achos a hyfforddiant. Mae'r Prosiect Cyfraith Gyhoeddus hefyd yn derbyn achosion lle gall ymgyfreitha gael effaith ar bolisi.
I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan: www.publiclawproject.org.uk

SESIWN Y PRYNHAWN

Cadeirydd: Eve Piffaretti
Partner, Morgan Cole LLP

14.00 **Y System Tribiwnlysoedd yng Nghymru: Map a'r wybodaeth ddiweddaraf am awdurdodaethau**

Mae'r darlun o Dribiwnlysoedd yng Nghymru yn un heriol. Bydd yr Is-Lywydd yn darparu map a golwg dros y materion allweddol, yn cynnwys hyfforddiant ac annibyniaeth farnwrol.

Elisabeth Arfon-Jones, Is-Lywydd, Uwch Dribiwnlys y Siambr Mewnfudo a Lloches ac Uwch Farnwr Cyswllt y Tribiwnlysoedd (Cymru)

14.30 **Y Ddadl ar Gyfraith Gyhoeddus: Cyfraith gyhoeddus yng Nghymru'r dyfodol**

Cadeirydd: Gwion Lewis,
Landmark Chambers a Phanel Cwnsleriaid Iau Llywodraeth Cymru

Panelwyr:

Theodore Huckle QC,
Cwnsler Cyffredinol Cymru

Emyr Lewis, Uwch Gymrawd, Canolfan Cyfansoddiadol Cymru, Prifysgol Caerdydd & Partner Morgan Cole LLP

Joanne Clement, 11KBW a Phanel Cwnsleriaid Iau Llywodraeth Cymru

Elisabeth Arfon-Jones, Uwch Farnwr Cyswllt y Tribiwnlysoedd (Cymru)

Huw Williams
Partner, Geldards LLP

Rhodri Williams QC
30 Park Place

15.15 **Toriad am Goffi**

15.30 **Gweithdai'r prynhawn**

16.40 **Anerchiad Clo**

Yr Anrhydeddus Mr Ustus Wyn Williams,
Barnwr Llywyddol Cylchdaith Cymru

17.00 **Troi tuag adref!**

NODWCH: Cynhelir y gynhadledd yn Saesneg ac rydym yn ymddiheuro na fydd cyfleusterau cyfieithu ar gael.

SESIYNAU GRŴP Y PRYNHAWN

(1 awr 10 munud): dewiswch un

5 Materion yn ymwneud â lleoliad hawliadau'r Llys Gweinyddol

Bydd y sesiwn hwn yn archwilio Cyfarwyddyd Ymarfer 54D y Rheolau Trefniadaeth Sifil a'r gyfreitheg sy'n deillio ohono o ran pa bryd y mae'n briodol bod hawliadau'r Llys Gweinyddol yn cael eu cyflwyno yn Swyddfa'r Llys Gweinyddol yng Nghymru. Bydd y sesiwn hefyd yn rhoi arweiniad i ymarferwyr ledled Cymru, ac yn Lloegr, ar gael gwrandawiad Llys Gweinyddol mor lleol â phosibl. Bydd David yn cynnal y sesiwn ar y cyfarwyddyd ymarfer ac yn esbonio sut mae cyfraith achosion wedi datblygu'r cyfarwyddyd hwn, a cheir rhywfaint o flas ar Hanes Cyfreithiol Cymru hefyd.

David Gardner, Cyfreithiwr Swyddfa'r Llys Gweinyddol (Cymru)

6 Golwg ar y mesur iechyd meddwl

Bydd y gweithdy hwn yn ystyried y newidiadau a wnaethpwyd i'r trefniadau deddfwriaethol presennol ym maes hawliau pobl â phroblemau iechyd meddwl yng Nghymru yn sgil Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, a sut y gellir gorfodi'r hawliau hynny. Byddwn yn ystyried sut cafodd y Mesur ei ddrafftio, ei weithrediad drwy gyfrwng Rheoliadau cysylltiedig, a beth fydd yr effaith debygol.

Eve Piffaretti, Partner, Morgan Cole LLP
Alun Thomas, Dirprwy Brif Weithredwr, Hafal

7 Rhowch y gorau i'ch gwawdio, mae'n mynd i ddigwydd: Rhagfarn a rhagderfynu mewn llywodraeth leol

Bydd y sesiwn hwn yn ystyried rhagfarn a rhagderfynu mewn awdurdodau lleol fel sail ar gyfer adolygiad barnwrol. Rhoddir sylw i'r ddysgeidiaeth gyfreithiol drwy adolygu cyfraith achosion. Bydd y sesiwn hefyd yn ystyried y ffyrdd y caiff ymddygiad aelodau awdurdodau lleol eu rheoleiddio i gyfyngu ar nifer yr achosion o ragfarn a rhagderfynu.

Richard Turney, Bargyfreithiwr, Landmark Chambers

8 Heriau cyllido cyfraith gyhoeddus

Bydd y seminar hwn yn edrych ar ddiwygiadau i Gymorth Cyfreithiol a'r dewisiadau sydd ar gael i unigolion a sefydliadau sydd am ddefnyddio'r Llys Gweinyddol – gan gynnwys Gorchmynion Gwarchod rhag Costau (PCO's), Cytundebau Ffi Amodol (CFA's), cyllido trydydd parti, a phwysigrwydd dyfarniad Bhata ar gyfer adennill costau yn achos corff cyhoeddus yn ildio cyn y gwrandawiad.

Louise Whitfield, Cyfreithiwr, Pierce Glynn
Tim Buley, Bargyfreithiwr, Landmark Chambers

Ffurflen archebu



Hoffwn archebu lle yng
'Nghynhadledd 2012 y Prosiect Cyfraith Gyhoeddus yng Nghymru'
yng Nghaerdydd ddydd Mercher 4ydd Ebrill 2012.
Lleoliad: Adeilad Morgannwg Prifysgol Caerdydd, Rhodfa Brenin Edward VII, Caerdydd, CF10 3WT

Defnyddiwch ffurflen ar wahân ar gyfer pob unigolyn

Sesiynau Gweithdy, rhowch gylch o amgylch eich dewis 1af

Bore 1 2 3 4 Prynhawn: 5 6 7 8

Gofynion arbennig o ran deiet

Anghenion o safbwynt Mynediad

Enw

Swydd

Sefydliad

Cyfeiriad

Cod post

Ffôn

Ffacs

E-bost

Amgaeaf siec am £ / A wnewch chi fy anfonebu am £ *(Dileer fel sy'n briodol)*

Os ydych yn talu ar ffurf archeb prynu, a fyddech mor garedig â chodi'r archeb gyda'ch adran gyfrifon cyn archebu lle.
SYLWER: Mae angen taliad llawn cyn y gellir cadarnhau eich lle yn y gynhadledd.
Dylid gwneud sieciau'n daladwy i 'The Public Law Project'

Dychweler i: Training, Public Law Project, 150 Caledonian Road, London N1 9RD

Ffôn: 0845 543 5946 Ffacs: (020) 7837 7048. E-bost: training@publiclawproject.org.uk

I gael ffurflenni archebu, rhagor o wybodaeth a rhaglenni, neu i archebu lle ar-lein, ewch i: www.publiclawproject.org.uk

Ffi safonol: £150 + TAW (£180) fesul cynrychiolydd.

Disgownt ar y ffi: elusennau, sector gwirfoddol, academyddion, myfyrwyr, cyfreithwyr dan hyfforddiant, disgyblion a bargyfreithwyr o fewn 2 flynedd i'w derbyn: £75 + TAW (£90) fesul cynrychiolydd.

Cynghorwyr: £50 + TAW (£60) – megis cynghorwyr Cyngor Ar Bopeth, Age Cymru, cynghorwyr myfyrwyr ac eiriolwyr lleyg sy'n gweithio yn y sector gwirfoddol.

Gostyngiad o 50% i'r trydydd cynrychiolydd pan mae 3 chynrychiolydd o'r un sefydliad yn archebu lle ar yr un pryd. Mae'r pris yn cynnwys lluniaeth ysgafn a chinio.

Polisi canslo a ffioedd: Os am gael ad-daliad y ffioedd, mae'n rhaid canslo'n ysgrifenedig o leiaf 10 niwrnod gwaith cyn yr achlysur (llai £25 + TAW o ffi weinyddol). Os byddwch yn canslo llai na 10 niwrnod gwaith cyn yr achlysur, ni ellir rhoi unrhyw ad-daliad. Er hynny, gall cynadleddwr arall roi ei enw i ddod yn eich lle ar unrhyw adeg cyn yr achlysur.

Mae'r rhaglen hon yn gywir wrth iddi fynd i'r wasg. Er hynny, cedwir pob hawl i addasu neu ganslo'r rhaglen o ganlyniad i amgylchiadau na ellid eu rhagweld.